# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 13 Chwefror 2025 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Kelly Clewett, Pauline Edwards (Is-Gadeirydd), Bobby Feeley, Jon Harland, Brian Jones a/ac David Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Rheolwr Traffig a Chludiant (MJ), Prif Beiriannydd - Diogelwch ar y Ffyrdd a Theithio Llesol (BW-J), Rheolwr Cludiant Gweithredol (SP), Cydlynydd Craffu (RhE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (Gweinyddwr) (KJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ)

Roedd y Cynghorydd Elen Heaton (Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor ar gyfer eitem rhif 5.

**Arsylwr:** Y Cynghorydd Ann Davies

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC): Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych - Gareth Evans

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Terry Mendies, Arwel Roberts ac Elfed Williams, ynghyd â'r Cynghorydd Barry Mellor - Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant ar gyfer eitem rhif 6.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Kelly Clewett gysylltiad personol ag eitem rhif 5 gan ei bod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu at unrhyw faterion brys cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2024. Felly:

***<u>Penderfynodd</u> y Pwyllgor: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

## 5 DATBLYGU YSBYTY BRENHINOL ALEXANDRA (YBA)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg adroddiad ar Ddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ochr yn ochr â Chyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gareth Evans. Rhannodd yr adroddiad ddiweddariad ar gynnydd ar gyfer datblygu safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl.

Pwysleisiwyd, er bod y prosiect yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd, roedd y Cyngor yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr y Gwasanaeth Iechyd arno, ac roedd yr Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn rhoi llawer iawn o amser ac ymdrech i wireddu'r prosiect. Y cynnig oedd darparu gwasanaethau newydd ochr yn ochr â gwasanaethau cefnogi wedi'u symud a'u hehangu mewn adeilad clinigol newydd. Byddai'r prosiect hefyd yn ceisio ailwampio adeilad presennol yr Ysbyty fel canolfan gefnogi gyda rhai gwasanaethau cleifion yn parhau e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Ffisiotherapi.

Arweiniodd Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig BIPBC y Pwyllgor drwy'r cyflwyniad gan dynnu sylw at gefndir a chrynodeb o'r gwaith a wnaed hyd yma ar y prosiect, yn cynnwys ei gwmpas, dyddiadau allweddol, strwythur llywodraethu'r rhaglen a chyfleoedd i gydweithio.

Roedd BIPBC yn dyheu am gael datblygu'r safle, sydd â hanes hir. Cyflwynwyd achos busnes yn 2021, ond oherwydd costau chwyddiant a achoswyd gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd, megis y pandemig a materion daearyddol-gwleidyddol, nid oedd digon o gyfalaf ar gael i ariannu'r gwaith a amlinellwyd yn yr achos busnes hwnnw. O ganlyniad, cytunwyd ar Werthusiad o Opsiynau ar gyfer datblygiad fyddai'n costio llai gyda Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024. Yna, cytunwyd i symud ymlaen gyda chwmpas y prosiect drwy gaffael dyluniad yn arloesol, oedd wedi'i atodi at Achos Busnes Llawn 2021 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

Oherwydd cyfyngiadau ariannol, bu'n rhaid ail werthuso cwmpas y gwaith. Roedd hyn yn golygu dyluniad oedd yn blaenoriaethu darparu gwasanaethau newydd mewn adeilad clinigol newydd, llai. Roedd hefyd yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu ailwampio adeilad presennol Rhestredig Gradd ll yr Ysbyty fel canolfan gefnogi. Hefyd, er mwyn lleddfu pwysau yn Ysbyty Glan Clwyd a chefnogi'r boblogaeth leol, roedd disgwyl i'r Bwrdd Iechyd ddarparu'r gwasanaethau canlynol yn yr adeilad newydd:

- Uned newydd ar gyfer Mân Anafiadau ac Anhwylderau
- Rhai gwelyau "Gofal yn Agosach at Adref"

- Mwy o gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid ar y safle

Dan y cynlluniau diwygiedig, byddai'r adeilad clinigol newydd yn cynnwys:

- Uned Mân Anafiadau ac Uned Mân Anhwylderau newydd er mwyn lliniaru'r galw ar Ysbyty Glan Clwyd a gwasanaethu pobl yn nes at eu cartrefi
- Tua 14 o welyau cymunedol (yn dibynnu ar gyfyngiadau'r dyluniad), fel bod Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gallu bodloni anghenion pobl leol
- Gwasanaeth Radioleg wedi'i symud a'i ehangu a gwasanaeth Deintyddol Cymunedol mwy.

Byddai'r adeilad presennol yn cael ei ailwampio i gynnwys:

- atgyweirio strwythur y llawr a'r adeiladwaith allanol
- ailwampio ardaloedd sy'n wag ar hyn o bryd
- isadeiledd trydanol a gwresogi newydd
- lleoli'r Trydydd Sector gyferbyn â'r Tîm Cymunedol; ac
- ailgyflwyno ac ehangu'r gwasanaethau iechyd rhywiol, awdioleg ac orthoteg (yn dibynnu ar gyfyngiadau dylunio ac ariannol).

Cafodd y Pwyllgor wybod beth oedd dyddiadau allweddol dangosol datblygu a darparu'r prosiect:

- **Ionawr – Ebrill 2025:** Caffael (roedd y cam hwn ar y gweill yn barod)
- **Mawrth – Awst 2025:** Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y safle
- **Mai 2025:** Bwrdd BIPBC yn cymeradwyo dyluniad yr adeilad newydd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- **Gorffennaf 2025:** Bwrdd BIPBC yn cymeradwyo'r adeilad presennol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- **Awst 2025:** Diweddariad ar ddyluniad a chostau'r adeilad presennol (RIBA 3)
- **Chwarter 1 2026:** Dechrau cam adeiladu'r adeilad newydd
- **Chwarter 2 2026:** Dechrau'r gwaith adeiladu ar yr adeilad presennol

Cafodd y Pwyllgor wybod hefyd am yr ymgysylltiad parhaus sydd ar y gweill â budd-ddeiliaid.

- Digwyddiadau ymgysylltu byr parhaus ar Iechyd
- Digwyddiadau yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn y Rhyl yn 2025
- Datblygu'r gwaith ar y buddion economaidd ehangach i'r gymuned â budd-ddeiliaid mewn llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol
- Parhau â digwyddiadau ymgysylltu â staff
- Dychwelyd at y Grŵp Budd-Ddeiliaid Cydraddoldeb
- Roedd Grŵp Cyfeirio Clinigol wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar.

Yn dilyn y cyflwyniad, wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol, swyddogion y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd:

- Bod y dyluniadau newydd wrthi'n cael eu cwblhau, a phan fyddant yn gyflawn, gwneir cais am ganiatâd cynllunio.

- Roedd deialog dda a chadarnhaol wedi bod gyda Llywodraeth Cymru a'r budd-ddeiliaid lleol eraill ar y prosiect a'r cyllid. Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cadarnhau elfen bartneriaeth y cyllid ac wedi'i gynnwys yn eu Cynllun Buddsoddi Cyfalaf 10 mlynedd. Roedd swyddogion y Bwrdd Iechyd a swyddogion perthnasol Cyngor Sir Ddinbych wedi cymryd rhan mewn trafodaethau â gweinidogion Llywodraeth Cymru ar y lefel uchaf o ran y prosiect.
- Bwriad y 14 gwely a gynigir oedd atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty acíwt. Fe'u gwelwyd fel darpariaeth camu i fyny/camu i lawr, fyddai'n nodwedd allweddol o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol, gan ategu at agweddau eraill o'r gwaith atal e.e. Tîm Adnodd Cymunedol a gwasanaethau eraill yn y gymuned.
- Eglurwyd y byddai tua 20% o gyllid y prosiect yn dod gan bartneriaid rhanbarthol, drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Gwneir cais i Lywodraeth Cymru am y gweddill drwy ffrydiau cyllid cyfalaf.
- Er nad oedd cyfleusterau parcio ceir wedi'u cwblhau eto, roedd yr holl bartneriaid yn ffyddiog y byddai atebion boddhaol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau terfynol.
- Cadarnhawyd bod y wardiau a gaewyd yn 2012 wedi cael eu cau oherwydd diogelwch tân, ac y byddai'n costio gormod i'w huwchraddio i fodloni safonau modern.

Mynegodd nifer o aelodau'r Pwyllgor bod angen ailsefydlu ysbytai cymunedol gan fod yr anghenion yn y gymuned yn cynyddu'n barhaus ac yn achosi pwysau difrifol ar ysbytai acíwt megis Ysbyty Glan Clwyd.

Pwysleisiodd y Pwyllgor ei bod yn rhwystredig bod y broses o ailddatblygu'r ysbyty yn cymryd cyhyd, yn enwedig i aelodau lleol oedd wedi bod yn aelodau etholedig ers dechrau'r cynnig i ddatblygu'r ysbyty. Dywedodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei bod yn deall rhwystredigaeth yr aelodau ar y mater. Fodd bynnag, roedd y prosiect wedi cael ei aildrefnu i gynnwys cyfyngiadau ariannol, roedd mwy o gyllid cyfalaf wedi cael ei addo gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau iechyd, felly roedd pob rheswm i deimlo'n fwy gobeithiol am y prosiect penodol hwn a meddwl ymlaen i'r dyfodol.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig BIPBC i bryderon yr aelodau y gallai'r mater ddioddef oherwydd y prosesau gwleidyddol cyn etholiad y Senedd yn 2026, gan ddweud bod y prosiect wedi bod ar y gweill ers sawl cylch etholiadol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i'r prosiect drwy osod cyllid o'r neilltu ar ei gyfer, yn amodol ar gwblhau'r camau cwmpasu a chynllunio dyluniad. Roedd wedi'i glustnodi fel un o'i brosiectau buddsoddiad cyfalaf mawr. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y prosiect yn dod â manteision sylweddol i'r gymuned leol.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am ddod i'r cyfarfod a rhoi'r cyflwyniad, ac am ateb cwestiynau'r aelodau ar y cyd â'r Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynodd</u> y Pwyllgor:***

***(i) nodi cwmpas y gwaith, yr amserlen a'r cyllid arfaethedig sydd ar gael ar gyfer datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra;***

***(ii) bod yr adborth a'r arsylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth yn cael eu hystyried fel rhan o gynllunio darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y datblygiad; a***

***(iii) bod adroddiad pellach ar gynnydd Datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2025.***

## 6 CYNLLUN CLUDIANT RHANBARTHOL DRAFFT

Cyflwynodd y Rheolwr Traffig a Chludiant, ynghyd â'r Prif Beiriannydd - Diogelwch ar y Ffyrdd a Theithio Llesol a'r Rheolwr Cludiant Gweithredol y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd yr adroddiad yn sôn am ddatblygiad parhaus Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru, fyddai'n disodli *Cyd Gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru 2015*. Cydnabu'r swyddogion bryderon aelodau'r Pwyllgor am faint yr adroddiad a'i gymhlethdod, gan bwysleisio ei fod yn gynllun lefel uchel fyddai rhwng y cynllun cludiant cenedlaethol a'r cynlluniau cludiant lleol.

Yng Nghymru, roedd gofyn i bob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig lunio Cynllun Cludiant Rhanbarthol (CCRh) ar gyfer eu rhanbarth. Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu datblygiad *Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru, s*y'n cael ei ddatblygu gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar y cyd â chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Roedd y Cynllun wedi'i lunio gan Is-bwyllgor Cludiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a chynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych arno oedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant. Byddai Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru yn disodli Cyd Gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru 2015 yn y pen draw. Er hynny, bydd y Cynllun blaenorol yn parhau'n "fyw" nes bydd Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir i hynny ddigwydd yn haf 2025.

Diben y pedwar Cynllun Cludiant Rhanbarthol oedd helpu i gyflawni'r uchelgeisiau yn Strategaeth Cludiant Cymru, Llwybr Newydd. Byddai Cynllun Cyflawni Cludiant Cenedlaethol yn cefnogi darpariaeth Strategaeth Cludiant Cymru. Llywodraeth Cymru sydd wedi datblygu'r Cynllun Cyflawni Cludiant Cenedlaethol a bydd yn darparu prosiectau cefnffyrdd, prosiectau rheilffyrdd a pholisïau, prosiectau a mentrau cludiant o bwys cenedlaethol.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod ymgynghoriad ar y gweill ar y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft a'i fod yn cael ei gynnal ar-lein yn bennaf. Fodd bynnag, byddai copïau papur o'r ymgynghoriad ar gael ar draws y rhanbarth mewn llyfrgelloedd a siopau un alwad.

Yn dilyn y cyflwyniad, trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol ymhellach –

- Er y croesawyd y cynllun, codwyd cwestiynau am barcio, yn enwedig parcio ar ymyl y palmant, gan fod Llywodraeth Cymru yn cynnig gwahardd yr arfer hwn. Eglurodd y swyddogion fod hwn yn fater cymhleth, oedd yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith bod pobl ifanc yn parhau i fyw gartref yn hirach oedd yn golygu bod mwy o geir ym mhob cartref. Nid oedd cyllid ar gael ar hyn o bryd i ddatblygu meysydd parcio preswylwyr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig symud ymlaen i wahardd pacio ar droedffyrdd pan oedd y terfyn cyflymder 20 mya wedi'i roi ar waith yn llawn, roedd hyd yn oed wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cludiant Cenedlaethol ond nid oedd wedi nodi y dylid ei gynnwys yn y cynlluniau rhanbarthol. Fodd bynnag, nid oes cynnig cadarn wedi'i gyflwyno ar gyfer ei orfodi hyd yma. Gellid trafod y mater hwn drwy'r Cydbwyllgorau Corfforedig pe bai'r aelodau'n gofyn iddo gael ei uwchgyfeirio atynt.
- Yr heriau o ran teithio llesol, yn enwedig yn ardaloedd gwledig y sir.
- Datblygiadau tai a'r angen i sicrhau bod digon o gyfleusterau parcio ar gael. Roedd yr aelodau'n teimlo y dylid amlygu'r broblem hon yn ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad. Cadarnhaodd y swyddogion ei bod yn anodd weithiau dod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng digon o ddarpariaeth parcio mewn datblygiadau newydd wrth annog teithio llesol hefyd.
- Roedd parcio mewn rhai ardaloedd trefol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn peri problemau mawr yn ystod y prif dymor gwyliau. Roedd yr aelodau'n credu'n gryf bod angen dod o hyd i atebion ymarferol.
- Oherwydd maint y cynllun cludiant a'i gymhlethdodau, roedd yr aelodau'n teimlo y byddai o fudd i'r prosiectau a amlinellir yn Atodiad B fynd gerbron cyfarfodydd y Grŵp Ardal Aelodau priodol er mwyn cael trafodaeth leol ar y cynnig. Cytunodd y swyddogion â'r awgrym a gyflwynwyd gan y Pwyllgor a sicrhawyd yr aelodau y byddai'r prosiectau hyn yn mynd gerbron y Grŵp Ardal Aelodau perthnasol pan oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mynegodd yr aelodau bryderon am waith y Cydbwyllgorau Corfforedig ac a fyddai aelodau etholedig yn methu cyfle i drafod materion oedd yn effeithio ar eu cymunedau. Eglurodd y Cydlynydd Craffu fod gwaith ar y gweill i sefydlu cydbwyllgor craffu ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig. Fodd bynnag, byddai pwyllgorau craffu awdurdodau lleol yn dal i gadw'r pwerau i archwilio unrhyw fater sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol, byddai gwaith y cydbwyllgor craffu'n canolbwyntio ar archwilio amcanion strategol a chynlluniau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, nid ar faterion yn ymwneud ag ardaloedd lleol.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***<u>Penderfynodd</u> y Pwyllgor: gadarnhau -***

***(i) fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y Gwerthusiad Lles Integredig (Atodiad A); ac***

***(ii) wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol drafft, gofyn am i'r arsylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth gael eu cynnwys yn ymateb terfynol Cyngor Sir Ddinbych i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar ei Gynllun drafft.***

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Cafodd yr aelodau wybod y byddai cyfarfod anffurfiol ar y cyd rhwng y Pwyllgor â Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 18 Mawrth i drafod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych ar y cyd. Roedd adroddiad archwilio'r Gwasanaeth wedi cael ei drafod gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Sir Ddinbych, oedd wedi awgrymu y dylai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau fonitro ei Gynllun Cyflawni. Gan fod hwn yn wasanaeth ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych, penderfynwyd cynnal cyfarfod ar y cyd at y dibenion hyn. Roedd yr adroddiad archwilio gwreiddiol wedi cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor fel rhan o'r ddogfen Briff Gwybodaeth yn gynharach yn yr wythnos ac fe'i hanogwyd i'w darllen cyn y cyfarfod ar y cyd.

Byddai'r cyfarfod nesaf ym mis Ebrill yn cynnwys dwy eitem: diweddariad ar gynnydd o ran adroddiad Archwilio Cymru ar 'Ofal Brys ac Argyfwng: Llif Allan o'r Ysbyty' ac adroddiad yn adolygu rheoli'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Cafodd yr aelodau wybod nad oedd yr eitem hon yn gysylltiedig â'r model gwastraff newydd.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu hefyd fod dwy eitem wedi cael eu cyfeirio at y Pwyllgor o gyfarfod diwethaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu (GCIGC). Roedd un wedi cael ei thrafod yn y cyfarfod hwn, sef y Cynllun Cludiant Rhanbarthol. Roedd y llall yn ymwneud â dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Roedd y GCIGC wedi ystyried adroddiad gwybodaeth am y pwnc hwn ac roeddent yn fodlon bod gan y Cyngor afael gadarn ar ffyrdd o ymdrin â'r newidiadau arfaethedig ar hyn o bryd. Er hyn, gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru wrthi'n cael eu datblygu, teimlwyd y byddai'n ddoeth i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau archwilio'r mater yn fanwl yn y cyfarfod ddechrau 2026.

Cafodd yr aelodau wybod bod cyfarfod nesaf y GCIGC wedi'i drefnu ar gyfer 10 Mawrth 2025. Tynnwyd eu sylw at Atodiad 2, oedd yn cynnwys ffurflen Cynnig Craffu'r Aelodau. Roedd angen llenwi a dychwelyd y ffurflen hon os oedd gan aelodau unrhyw bynciau yr hoffent iddynt gael eu cynnwys ar raglen waith y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol. Felly:

***<u>Penderfynodd</u> y Pwyllgor: yn amodol ar gynnwys adroddiad ar gynnydd datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2025, cadarnhau ei raglen waith fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Nid oedd y Cynghorydd Feeley, y cynrychiolydd Craffu ar Fwrdd Prosiect Bwthyn y Ddôl, y Ganolfan Is-ranbarthol Asesu Plant wedi gallu aros drwy gydol y cyfarfod. Yn ei habsenoldeb, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y prosiect. Roedd Bwthyn y Ddôl bellach ar agor. Roedd y ddarpariaeth 4 gwely (arhosiad byr therapiwtig) wedi cael cymeradwyaeth Arolygiaeth Gofal Cymru ac roedd bellach

wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth. Bu'n rhaid gwneud gwaith ychwanegol o ran y ddarpariaeth frys 2 wely er mwyn iddo fodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth yr Arolygiaeth. Roedd hyn wedi'i gwblhau erbyn hyn a rhagwelwyd y byddai'r Arolygiaeth yn cymeradwyo'r cofrestriad gyda hyn. O'r herwydd, gan fod y gwaith o gyflawni'r prosiect yn tynnu tua'r terfyn, roedd y Bwrdd Prosiect wedi camu i lawr.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm